

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth  
Questions to the Minister for Economic Development and Transport

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

#### Gwella Swyddfeydd Post Improvements to Post Offices

**Q12 Glyn Davies:** Will the Minister make a statement on the Assembly Government schemes to support improvements to post offices? (OAQ38556)

**C12 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r gwaith o wella swyddfeydd post? (OAQ38556)

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** The Welsh Assembly Government's post office development fund supports improvements to offices. To date, I have awarded £4.1 million to 105 post offices under the fund. These branches have been given the opportunity to make much-needed structural, aesthetic and security improvements, purchase essential equipment and to diversify services to the benefit of local residents and help make these outlets more viable.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae cronfa ddatblygu swyddfeydd post Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi gwelliannau i swyddfeydd. Hyd yma, yr wyf wedi dyfarnu £4.1 miliwn i 105 swyddfa post o dan y gronfa. Rhoddwyd y cyfle i'r canghennau hyn wneud gwelliannau angenrheidiol o ran strwythur, estheteg a diogelwch, brynu offer hanfodol ac i arallgyfeirio gwasanaethau er budd trigolion lleol ac i helpu i wneud y busnesau hyn yn fwy dichonadwy.

#### Cyfiawnder Cymdeithasol yn Nyffryn Clwyd Social Justice in the Vale of Clwyd

**Q13 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on the ways in which the Assembly Government is promoting social justice in the vale of Clwyd? (OAQ38553)

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn hybu cyfiawnder cymdeithasol yn nyffryn Clwyd? (OAQ38553)

**Edwina Hart:** Promoting social justice lies at the heart of the Assembly Government's agenda. The vale of Clwyd has benefited from almost £400,000 under the community facilities and

**Edwina Hart:** Mae hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd agenda Llywodraeth y Cynulliad. Mae dyffryn Clwyd wedi derbyn bron i £400,000 o dan y rhaglen cyfleusterau a

activities programme, and over £760,000 of Communities First funding in Rhyl. In 2004-05, the Denbighshire voluntary services council will receive £109,780 to support the voluntary sector in its area, while the Denbighshire Community safety partnership has been allocated £104,985 from our safer communities fund and £285,120 from the substance misuse action plan fund.

gweithgareddau, a thros £760,000 o gyllid Cymunedau yn Gyntaf yn y Rhyl. Yn 2004-05, bydd cyngor gwasanaethau gwirfoddol sir Ddinbych yn derbyn £109,780 i gefnogi'r sector wirfoddol yn ei ardal, ac y dyrennir £104,985 i bartneriaeth diogelwch cymunedol sir Ddinbych o'n cronfa creu cymunedau mwy diogel a £285,120 o gronfa'r cynllun gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau.

### **Mynd i'r Afael â Dibyniaeth ar Gyffuriau ac Alcohol Combating Drug and Alcohol Dependency**

**Q14 Catherine Thomas:** What is the Minister doing to support schemes aimed at combating drug and alcohol dependency? (OAQ38568)

**C14 Catherine Thomas:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi cynlluniau i fynd i'r afael â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol? (OAQ38568)

**Edwina Hart:** The most important thing that I am doing to support substance misuse treatment services is boosting funding significantly. The annual substance misuse action fund will have increased by over 550 per cent from £3.3 million in 2002-03 to over £18 million by 2007-08.

**Edwina Hart:** Rhoi hwb sylweddol i arian yw'r peth pwysicaf yr wyf yn ei wneud i gefnogi triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Bydd y gronfa weithredu flynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau wedi codi dros 550 y cant o £3.3 miliwn yn 2002-03 i dros £18 miliwn erbyn 2007-08.

### **Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd Tackling Fuel Poverty**

**Q15 Gwenda Thomas:** Will the Minister make a statement on an initiative 'Warm Wales—Bringing warm homes to Neath Port Talbot' to tackle fuel poverty? (OAQ38584)

**C15 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fenter 'Cymru Gynnes—Dod â Chartrefi Cynnes i Gastell-nedd Port Talbot' i fynd i'r afael â thlodi tanwydd? (OAQ38584)

**Edwina Hart:** I am pleased to hear of the commitment in Neath Port Talbot to tackling fuel poverty, which is something that all authorities should be encouraged to make. Warm Wales has requested additional funding from the Assembly Government, but this must be viewed against the significant investment that we are already making via our home energy efficiency scheme.

**Edwina Hart:** Mae'n dda gennyf glywed am ymrwymiad Castell-nedd Port Talbot i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, a dylid annog pob awdurdod i ymrwymo felly. Mae Cymru Gynnes wedi gofyn am arian ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad, ond rhaid cadw mewn golwg ein buddsoddiad sylweddol eisoes a wneir drwy ein cynllun effeithiolrwydd ynni ar aelwydydd.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport**

#### **Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy ym Mhreseli Sir Benfro Renewable Energy Sources in Preseli Pembrokeshire**

**Q9 Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Will the Minister outline progress towards creating renewable energy sources in Preseli

**C9 Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn a wnaed hyd yma er mwyn creu ffynonellau ynni adnewyddadwy ym

Pembrokeshire? (OAQ38521)

Mhreseli Sir Benfro? (OAQ38521)

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** A number of renewable energy projects have been developed in Pembrokeshire. These have been supported through Welsh Development Agency, national park authority and Assembly sustainable development funds. I hope that longer-term renewable technologies will be developed in Pembrokeshire, and that the proposed Pembrokeshire energy technium will provide the focus and support required.

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Datblygwyd nifer o brosiectau ynni adnewyddadwy yn sir Benfro. Cefnogwyd y rhain drwy arian Awdurdod Datblygu Cymru, arian awdurdod y parc cenedlaethol ac arian datblygu cynaliadwy'r Cynulliad. Gobeithio y datblygir technolegau adnewyddadwy i'r tymor hwy yn sir Benfro, ac y bydd technium ynni arfaethedig sir Benfro yn rhoi'r gefnogaeth a'r ffocws sydd eisiau.

### Llwybrau Diogel i'r Ysgol Safe Routes to School

**Q10 Gwenda Thomas:** Will the Minister make a statement on Safe Routes to School? (OAQ38533)

**C10 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Llwybrau Diogel i'r Ysgol? (OAQ38533)

**Andrew Davies:** The Assembly Government's Safe Routes to School initiative has been enthusiastically welcomed in Wales. Since it was introduced in 1999, over £14.5 million has been made available to local authorities, covering over 80 schemes and over 260 schools. A further £3.5 million has been earmarked for 2005-06, with bids for funding currently under consideration.

**Andrew Davies:** Cafodd menter Llwybrau Diogel i'r Ysgol Llywodraeth y Cynulliad groeso brwd yng Nghymru. Ers ei gyflwyno yn 1999, rhyddhawyd dros £14.5 miliwn i awdurdodau lleol, sy'n cwmpasu dros 80 o gynlluniau a thros 260 o ysgolion. Clustnodwyd £3.5 miliwn pellach ar gyfer 2005-06, ac mae ceisiadau am arian yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

### Gwasanaethau Trafnidiaeth i Bobl ag Anableddau Transport Services for People with Disabilities

**Q11 Laura Anne Jones:** Will the Minister make a statement on transport services available for the disabled? (OAQ38484)

**C11 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba wasanaethau trafndiaeth sydd ar gael i bobl ag anableddau? (OAQ38484)

**Andrew Davies:** Of course, our flagship concessionary bus fare scheme for older people applies equally to the disabled and their carers. Following on from that, we are introducing a limited scheme, with a series of demonstration projects allowing free travel on community transport for severely disabled buspass holders. The Department for Transport has consulted on lifting the transport services exemption from the Disability Discrimination Act 1995. The draft Disability Discrimination Bill was published in December 2003.

**Andrew Davies:** Wrth gwrs, mae ein prif gynllun consesiynau teithio bws ar gyfer pobl hŷn yn gymwys i bobl ag anableddau a'u gofalgwyr fel ei gilydd. Yn sgîl hynny, yr ydym yn cyflwyno cynllun cyfyngedig, gyda chywres o brosiectau arddangosiadol sy'n caniatáu teithio am ddim ar drafnidiaeth gymunedol i ddeiliaid teitheb bws sydd ag anableddau difrifol. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi ymgynghori ar ddiddymu eithrio'r gwasanaethau trafndiaeth o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Cyhoeddwyd y Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd ym mis Rhagfyr 2003.

### Grant Buddsoddiad y Cynulliad The Assembly Investment Grant

**Q12 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on the Assembly investment grant? (OAQ38493)

**Andrew Davies:** The Assembly investment grant continues to make a valuable contribution to stimulating growth and increasing the competitiveness of the Welsh economy. The scheme has been a major success within the Welsh small and medium-sized enterprise community. In the past financial year alone, some 528 offers of grant have been made, with a forecast value of over £16 million. These grants are expected to lever in almost £46 million of capital investment and create or maintain some 6,000 jobs.

**C12 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar grant buddsoddiad y Cynulliad? (OAQ38493)

**Andrew Davies:** Mae grant buddsoddiad y Cynulliad yn parhau i gyfrannu'n werthfawr at y broses o ysgogi twf a gwella natur gystadleuol economi Cymru. Bu'r cynllun yn gryn lwyddiant o fewn y gymuned mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn unig, gwnaed tua 528 o gynigion grant, a rhagwelir y byddant yn werth dros £16 miliwn. Disgwylir i'r grantiau hyn ddenu bron £46 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf a chreu neu gynnal tua 6,000 o swyddi.

### Llwybrau Diogel i'r Ysgol Safe Routes to School

**Q13 Rosemary Butler:** Will the Minister make a statement on Safe Routes to School? (OAQ38515)

**Andrew Davies:** The Assembly Government's Safe Routes to School initiative has been enthusiastically welcomed in Wales. Since it was introduced in 1999, over £14.5 million has been made available to local authorities, covering over 80 schemes and over 260 Schools. A further £3.5 million has been earmarked for 2005-06, with bids for funding currently under consideration.

**C13 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Llwybrau Diogel i'r Ysgol? (OAQ38515)

**Andrew Davies:** Cafodd menter Llwybrau Diogel i'r Ysgol Llywodraeth y Cynulliad groeso brwd yng Nghymru. Ers ei gyflwyno ym 1999, rhyddhawyd dros £14.5 miliwn i awdurdodau lleol, sy'n cwmpasu dros 80 o gynlluniau a thros 260 o ysgolion. Clustnodwyd £3.5 miliwn pellach ar gyfer 2005-06, ac mae ceisiadau am arian yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

### Ymestyn Ffyniant i Gymunedau o Amddifadedd Spreading Prosperity to Deprived Communities

**Q14 Lynne Neagle:** Will the Minister outline what measures the Assembly Government has taken to spread prosperity to deprived communities in Wales? (OAQ38496)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government's main vehicle to regenerate communities in Wales is the Communities First programme. This is supported by the physical regeneration fund, the community facilities and activities programme, access for all grant scheme, and the WDA community regeneration toolkit. These measures are intended to combat economic inactivity, social deprivation, and aid regeneration.

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i ymestyn ffyniant i gymunedau o amddifadedd yng Nghymru? (OAQ38496)

**Andrew Davies:** Prif gyfrwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio cymunedau yng Nghymru yw rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ategir hwn gan y gronfa adfywio ffisegol, y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, cynllun grant mynediad i bawb, a phecyn adfywio cymunedol Awdurdod Datblygu Cymru. Pwrpas y camau hyn yw trechu anweithgarwch economaidd, amddifadedd cymdeithasol, a chynorthwyo adfywio.

'A Winning Wales', the Welsh Assembly Government's national economic development strategy, points to the need to help more people

Mae 'Cymru'n Ennill', strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd, yn nodi'r angen i gynorthwyo mwy o

into jobs to raise levels of economic activity. Team Wales is implementing the strategy's action plan to help fulfil the Assembly Government's vision of a prosperous Welsh economy that is dynamic, inclusive and sustainable, based on successful, innovative businesses with highly skilled, well-motivated people. In particular, the WDA's urban regeneration service is working with local authorities to regenerate and improve the towns and cities of Wales. Improving the environment, refurbishing existing buildings and supporting new development encourages sustainable economic development in urban areas.

bobl i mewn i swyddi er mwyn codi lefelau gweithgarwch economaidd. Mae Tîm Cymru yn rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth ar waith er mwyn helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o economi Gymreig ffyniannus sy'n ddeinamig, yn gynhwysol a chynaliadwy, ac yn seiliedig ar fusnesau llwyddiannus ac arloesol sydd â phobl frwdfrydig, tra medrus. Mae gwasanaeth adfywio trefol Awdurdod Datblygu Cymru, yn arbennig, yn cydweithio ag awdurdodau lleol i adfywio a gwella trefi a dinasoedd Cymru. Mae gwella'r amgylchedd, adnewyddu adeiladau sydd eisoes yn bodoli, a chefnogi datblygiadau newydd yn annog datblygu economaidd cynaliadwy mewn ardaloedd trefol.

### **Cysylltiadau Ffyrdd rhwng y Gogledd a'r De Road Links between North and South**

**Q15 Glyn Davies:** What new proposals has the Minister brought forward to improve the road links between north and south Wales? (OAQ38487)

**Glyn Davies:** Pa gynigion newydd y mae'r Gweinidog wedi'i cyflwyno i wella'r cysylltiadau ffyrdd rhwng gogledd a de Cymru? (OAQ38487)

**Andrew Davies:** I refer you to the answer that I gave you to OAQ38490 on 20 October.

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf i'r ateb a roddais ichi i OAQ38490 ar 20 Hydref.